**Grŵp Llywio $PM_{10}$ Port Talbot – Cylch Gorchwyl**

Rhestr o aelodau:

- CBS Castell-nedd Port Talbot
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Llywodraeth Cymru
- Tata Steel UK
- Costain
- Tarmac
- Harsco

Cadeirydd: Llywodraeth Cymru

Ysgrifenyddiaeth: Llywodraeth Cymru

Diben:

- Sefydliadau allweddol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod ansawdd aer yn parhau i wella a bod iechyd a llesiant pobl Castell-nedd Port Talbot yn cael eu hamddiffyn.
- Adolygu gwaith parhaus a chyfarwyddo adnoddau'n briodol. Mae camau strategol yn cael eu trafod gan y grŵp.

Nodau:

- lleihau'r risg yr eir uwchlaw gwerth terfyn neu drothwy rhybuddio perthnasol; neu
- lle nad oes modd atal hynny rhag digwydd, i gyfyngu ar ei hyd neu ei ddifrifoldeb.

Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp fel a ganlyn:

- cynnal tri chyfarfod y flwyddyn (neu yn amlach os oes materion yn codi) i drafod $PM_{10}$ ym Mhort Talbot.
- cynhelir y cyfarfodydd hyn yn swyddfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd, Llandarcy.
- bydd cais am gyfraniad at eitemau'r agenda a'r agenda y cytunwyd arnynt yn cael eu dosbarthu i bob aelod gan Lywodraeth Cymru cyn pob cyfarfod, a bydd nodiadau'r cyfarfod yn cael eu dosbarthu i bob aelod ar ôl pob cyfarfod.

**<u>Grŵp Rheoleiddwyr $PM_{10}$ Port Talbot – Cylch Gorchwyl</u>**

<u>Rhestr o aelodau:</u>

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Llywodraeth Cymru

<u>Cadeirydd</u>: Llywodraeth Cymru    <u>Ysgrifenyddiaeth</u>: Llywodraeth Cymru

<u>Diben</u>:

- Y Llywodraeth a Rheoleiddwyr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau bod ansawdd aer yn parhau i wella a bod iechyd a llesiant pobl Castell-nedd Port Talbot yn cael eu hamddiffyn.

<u>Nodau</u>:

- lleihau'r risg yr eir uwchlaw gwerth terfyn neu drothwy rhybuddio perthnasol; neu
- lle nad oes modd atal hynny rhag digwydd, i gyfyngu ar ei hyd neu ei ddifrifoldeb.

<u>Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp fel a ganlyn:</u>

- cynnal tri chyfarfod y flwyddyn (neu yn amlach os oes materion yn codi) i drafod $PM_{10}$ ym Mhort Talbot a rheoleiddio'r gweithgareddau hynny sy'n cyfrannu at $PM_{10}$ yn yr ardal.
- sicrhau bod y blaenoriaethau cywir wedi'u nodi ac adolygu'r camau a gymerwyd gan y rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru.
- bydd cais am i aelodau gyfrannu at eitemau'r agenda a'r agenda y cytunwyd arni yn cael eu dosbarthu i bob aelod gan Lywodraeth Cymru cyn pob cyfarfod, a bydd nodiadau'r cyfarfod yn cael eu dosbarthu i bob aelod ar ôl pob cyfarfod.

**Tîm Data $PM_{10}$ Port Talbot – Cylch Gorchwyl**

Rhestr o aelodau:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Llywodraeth Cymru
- Tata Steel UK
- Harsco
- Tarmac
- Costain

Cadeirydd: Llywodraeth Cymru Ysgrifenyddiaeth: Llywodraeth Cymru

Diben:

- Hwyluso perthynas waith agos rhwng rhanddeiliaid allweddol o ran dadansoddi a deall data ansawdd aer ym Mhort Talbot.
- Hwn yw'r gweithgor technegol sy'n craffu ar y dystiolaeth bellach sydd ei hangen i wella crynodiadau $PM_{10}$ ym Mhort Talbot. Mae'n gyfrifol am adolygu'r data ar $PM_{10}$ a gwella'r gwaith o reoli a dehongli'r data ar draws y gwahanol sefydliadau.
- Mae'r grŵp hwn yn asesu perfformiad buddsoddiadau a threialon ac yn rhoi'r argymhellion o adroddiad Prifysgol Gorllewin Lloegr a nodyn cyngor y Grŵp Arbenigol Ansawdd Aer ar waith.

Nodau:

- Deall yn well y ffynonellau $PM_{10}$ mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar Bort Talbot.

Mae Cylch Gorchwyl y Grŵp fel a ganlyn:

- cynnal cyfarfodydd misol i drafod $PM_{10}$ ym Mhort Talbot.
- sicrhau bod y blaenoriaethau cywir wedi'u nodi ar gyfer gweithredu
- trafod cynnydd yn erbyn pob eitem ar y Cynllun Gweithredu $PM_{10}$ – gan gynnwys:

  -monitro,

  -ansawdd data,

  -dadansoddi data,

  -dosrannu ffynonellau,

  Mesuriadau rhywogaethau cemegol a

-modelu gwasgariad

- rhoi’r newyddion diweddaraf i’r grŵp llywio i alluogi cynllunio adnoddau a strategol.
- bydd agenda’n cael ei dosbarthu i bob aelod gan Lywodraeth Cymru cyn pob cyfarfod, a bydd nodiadau’r cyfarfod yn cael eu dosbarthu i bob aelod ar ôl pob cyfarfod.